

## **Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol (Dirybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,  
Ysbyty Cymunedol Tregaron

**23 a 24 Hydref 2014**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

|    |  |    |
|----|--|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                                    | 2  |
| 2. | Methodoleg .....                                   | 2  |
| 3. | Cyd-destun.....                                    | 3  |
| 4. | Crynodeb .....                                     | 4  |
| 5. | Canfyddiadau.....                                  | 6  |
|    | Ansawdd Profiad y Claf .....                       | 6  |
|    | Cyflenwi Hanfodion Gofal .....                     | 9  |
|    | Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... | 18 |
|    | Cyflenwi Gwasanaeth Effeithiol a Diogel .....      | 20 |
| 6. | Camau Nesaf .....                                  | 26 |
| 7. | Atodiad A .....                                    | 27 |

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad urddas a gofal hanfodol dirybudd yn Ysbyty Cymunedol Tregaron, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 23 a 24 Hydref, 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gallant hefyd dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas.

### 3. Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Hydref 2009 yn dilyn Rhaglen Diwygio'r GIG 2008-2009, a gyflwynodd ofal iechyd integredig i Gymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am iechyd a lles y boblogaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i drigolion de Gwynedd a Phowys. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu chwarter o diriogaeth Cymru a phoblogaeth o tua 375,061 o bobl.

Darperir y gwasanaethau gofal cymunedol ac eilaidd trwy:

- Bedwar ysbyty; Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli ac Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlfordd
- Wyth ysbyty cymunedol
- Un ar ddeg o ganolfannau iechyd

Mae **Ysbyty Tregaron** yn ysbyty cymunedol bach mewn ardal wledig rhwng Aberystwyth i'r gogledd, a Llanbedr Pont Steffan i'r de. Mae ganddo un ward sy'n cynnwys tair cilfan â chwech o welyau a thair ystafell unigol. O dipyn i dipyn cafodd niferoedd y gwelyau i gleifion preswyl eu lleihau o 29 i 13. Mae'r ysbyty'n arbenigo mewn adsefydlu'r henoed a gofal lliniarol. Mae rhai clinigau ar gyfer cleifion allanol yn dal i weithredu o'r adeilad; fodd bynnag nid ydynt a wnelo â'r ward.

## 4. Crynodeb

Yn gyffredinol, canfuom fod cleifion yn cael profiad cadarnhaol tra eu bod yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Roedd agweddau'r staff tuag at gleifion yn dda ac roedd safonau gofal yn cael eu bodloni. Gwelsom fod gofal holistaidd yn cael ei roi ac roedd y cleifion yn llawn canmoliaeth ynghylch pob agwedd ar eu harhosiad.

Roedd cleifion yn fodlon iawn gyda'r modd roedd tîm y ward wedi darparu gofal a chefnogaeth iddynt. Canfuom hefyd fod cleifion yn cael eu hannog i leisio eu barn os oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch eu triniaeth a'u bod, at ei gilydd, yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Gwelsom fod staff yn cyfathrebu'n briodol gyda chleifion yn eu dewis iaith yn ystod arhosiad y cleifion ar y ward. Gwnaeth hyn i bobl deimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu.

Roedd y cleifion a gytunodd i siarad â ni yn llawn canmoliaeth i'r ffordd barchus y mae aelodau staff yn darparu gofal a chymorth iddynt yn feunyddiol; roedd rhai cleifion wedi bod ar y ward ers nifer o wythnosau.

Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a thrafodaethau gyda'r unigolion dan sylw bod gan yr aelodau staff ddigon o amser i roi iddynt er mwyn cymryd rhan ymarferol yn eu gofal.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gynnal perthynas â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Wrth sgwrsio â ni, mynegodd cleifion eu bod yn cael cyfleoedd i ymlacio yn ystod y dydd a bod staff yn rhoi blancedi ychwanegol iddynt os oedd eu hangen. Mynegodd nifer o gleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn rhydd rhag poen.

Gwelsom fod cleifion yn derbyn cymorth gyda'u hylendid personol a'u hymddangosiad yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau, a bod eu hanghenion maeth a'u gallu corfforol i fwyta ac yfed yn cael eu hasesu'n rheolaidd. Rhoddir cyngor a chefnogaeth iddynt yn ôl yr angen.

Anogir a chynorthwyr y cleifion i ofalu am eu cegau; darperir gofal a chymorth priodol yn ôl y gofyn.

Nid oedd gan y cleifion fynediad hawdd at glychau galw'r nyrsys i'w galluogi i ofyn am gymorth i fynd i'r toiled ac yn ôl.

Caiff y cleifion eu helpu i ofalu am eu croen ac mae tîm y ward yn gwneud ymdrechion i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda yn ôl pob golwg. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref a gwaith tîm da. Roedd y staff nyrsio yn bodloni'r safonau gofynnol ac roedd staff yn deall sut i drosglwyddo problemau i lefel uwch pe baent yn codi. Fodd bynnag, ni roddwyd hyn ar waith yn sgil absenoldeb y clerc ward. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon â'r sylw a oedd yn cael ei roi i faterion sy'n gysylltiedig â darparu gofal iechyd/gwasanaethau diogel ac effeithiol.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Yn gyffredinol, canfuom fod cleifion yn cael profiad cadarnhaol tra eu bod yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Roedd agweddau'r staff tuag at gleifion yn dda ac roedd safonau gofal yn cael eu bodloni. Gwelsom fod gofal holiataidd yn cael ei roi. Roedd cleifion yn ganmoliaethus iawn ynghylch pob agwedd ar eu harhosiad.**

Roedd adborth holiaduron y cleifion yn gadarnhaol ynghylch agwedd yr aelodau staff a'r ffordd yr oeddent yn darparu gofal. Mynegodd cleifion eu bod yn teimlo bod eu hurddas a'u preifatrwydd yn cael eu parchu yn ystod eu harhosiad.

Yn ystod yr arolygiad hwn dosbarthwyd 13 o holiaduron (AGIC) gennym i gleifion a pherthnasau er mwyn cywain barn pobl am y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Tregaron. Yn ogystal gwnaethom siarad â nifer fach o berthnasau a oedd yn y ward yn ymweld â phobl. Cwblhawyd a dychwelwyd wyth holiadur; chwech gan gleifion a dau gan berthnasau ar ran cleifion.

Cytunodd yr ymatebwyr i gyd fod y ward yn lân. Gwelsom staff tŷ yn golchi fframiau drysau ym mhrif rodfa'r ward ac er bod y ward yn lân edrychai'n ddi-raen, yn ddigon anniben a bod angen ei hailaddurno.

Pan ofynnwyd ynghylch cyfathrebu ac agweddau'r staff, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr bod staff yn siarad â nhw yn eu dewis iaith, a chlywsom Gymraeg a Saesneg yn cael eu defnyddio. Cytunodd y mwyafrif o'r cleifion bod y staff yn gwrtais, serch hynny dim ond rhai ohonynt (pedwar) oedd o'r farn bod y staff yn gwrando arnyn nhw a'u perthnasau; roedd dau yn teimlo'n gryf na wrandewid arnynt. Gall hyn olygu nad yw rhai cleifion yn teimlo bod eu barn yn bwysig. Meddai un sylw;

*"Gall un neu ddau fod yn ewn. Nid ydyn nhw wastad yn gwrando."*

### **Argymhelliad**

***Rhaid cynnwys cleifion yn y broses o gynllunio eu gofal a'u triniaeth. Rhaid i staff wrando ar gleifion a'u perthnasau ynghylch holl agweddau eu gofal a sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu parchu.***

Dim ond tri chlaf oedd yn teimlo bod staff yn siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac yn eu helpu i ddeall eu triniaeth. Gallai hyn arwain at wneud i gleifion deimlo'n bryderus.



## **Argymhelliad**

***Rhaid cynnwys cleifion wrth gynllunio eu gofal a'u triniaeth. Lle bo angen rhaid esbonio cyflyrau meddygol a rhoi cefnogaeth i gleifion ddeall eu triniaeth.***

Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod nhw'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir gan y staff nyrsio. Cafwyd y sylwadau canlynol i ategu eu barn;

*"mae'r gofal yn rhagorol yma"*

*"yn bles iawn gyda'r hyn mae'r staff yn ei wneud"*

*"Mae'n anodd disgrifio'r parch mawr sydd gan bobol at yr ysbyty hwn... prin bod geiriau ar gael i'w ddisgrifio."*

*"...yn hapus iawn yma. Does dim gair croes i'w ddweud am y lle. Ysbyty rhagorol."*

Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â'u safbwyntiau ar y gofal maent wedi ei dderbyn yn gyffredinol, rhoddodd pedwar o'r saith ymatebydd radd 10 (ardderchog) iddo; rhoddodd dau ohonynt radd wyth, a gwnaeth un hepgor rhoi cylch o amgylch y rhif.

Ymhlith y sylwadau ychwanegol a wnaed oedd;

*"Mae'r staff wedi bod yn wych, yn rhagorol."*

*"maen nhw'n staff rhagorol".*

*"Mae gofal y staff yn wych. Maen nhw wedi bod yn gymwynasgar iawn wrth geisio dod o hyd i'r lle agosaf ar gyfer fy ngwraig.*

*"Mae Tregaron yn gyfleus iawn i mi, ond 5 milltir o adref ac â minnau'n 90 oed mae'n ddigon pell i mi yrru yno."*

Nodwyd wrth arsylwi ac wrth sgwrsio â chleifion bod setiau teledu ar gael yn y cilfannau ac yn yr ystafell ddydd ond nid oeddynt wedi eu troi ymlaen. Serch hynny clywsom aelod o staff yn cynnig troi'r teledu ymlaen yn yr ystafell ddydd ond gwrthododd y claf y cynnig. Nid oedd radios wrth erchwyn y gwelyau a dywedodd un claf wrthym "*Hoffwn i gael un ar adegau.*" Byddai'r cyfleusterau hyn yn lleihau'r unigedd a deimlir mewn ysbyty ac yn rhoi pwrpas i'r diwrnod, gan roi cyfeiriad i amser a materion cyfoes.

***Argymhelliad***

***Am nad oes gan y ward gyfleusterau radio ar erchwyn y gwely dylid annog y cleifion hynny sy'n dymuno gwneud i ddod â'u radio eu hunain gyda chlustffonau personol.***

## **Cyflenwi Hanfodion Gofal**

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn fodlon iawn ar y ffordd roedd tîm y ward wedi darparu gofal a chefnogaeth iddynt. Canfuwyd gennym hefyd bod cleifion yn cael eu hannog i leisio eu barn os oes ganddynt unrhyw bryderon am eu triniaeth a'u bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch fel rheol.**

### **Cyfathrebu a gwybodaeth**

*Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion*

**Gwelsom fod staff yn cyfathrebu'n briodol gyda chleifion yn eu dewis iaith yn ystod arhosiad y cleifion ar y ward. Gwnaeth hyn i bobl deimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu.**

Roedd nodiadau cleifion, a oedd o safon dda, yn cynnwys yr wybodaeth bersonol ac asesiadau cychwynnol angenrheidiol, gydag asesiadau risg cysylltiedig wedi'u cofnodi'n glir. Roedd y cofnodion gofal dyddiol yn fanwl ac yn cyfeirio at gynlluniau gofal; fodd bynnag nid oedd tystiolaeth o werthuso i sicrhau bod y gofal yn effeithiol.

Nid oedd rhai penderfyniadau pwysig, megis Na Cheisier Dadebru (DNAR<sup>1</sup>), yn ddigon amlwg yn nodiadau'r claf, er ei fod ar fwrdd gwyn yn swyddfa'r nyrsys. Nid oedd y penderfyniad hwn wedi'i ysgrifennu'n glir yn nodiadau un claf a oedd ar ei waeledd olaf. Ni chafodd asesiadau galluedd meddyliol eu gwneud pan oedd pobl wedi'u drysu neu'n ffwdrus, i gofnodi'r achos, ac roedd staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ei chael hi'n anodd disgrifio'u dealltwriaeth o'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS<sup>2</sup>). Prin iawn oedd y dystiolaeth o gynlluniau rhyddhau claf yn unrhyw un o'r nodiadau nyrsio neu feddygol. Gallai hyn olygu oedi wrth ryddhau neu drosglwyddo claf adref. Gwelsom dystiolaeth

---

<sup>1</sup>Na Cheisier Dadebru (DNAR) - Gorchymyn cyfreithiol sy'n dweud wrth dîm meddygol am beidio â pherfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR) ar glaf. Fodd bynnag nid yw hyn yn effeithio ar driniaethau meddygol eraill.

<sup>2</sup>DoLS. Pan na fydd gan berson alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am y gofal neu'r driniaeth y mae arno ei hangen, rhaid dilyn deddfwriaeth o'r enw Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid er mwyn sicrhau nad yw pobl yn colli eu rhyddid yn anghyfreithlon.

bod bwndeli gofal yn cael eu defnyddio<sup>3</sup> er nad oedd y rhain yn cael eu cwblhau'n llawn bob amser.

### ***Argymhellion***

***Mae angen archwilio nodiadau nyrsio i sicrhau y cwblheir yr holl ddogfennau'n briodol. Mae angen i ddogfennaeth nodi anghenion nyrsio unigol yn eglur, amlinellu ymyriadau a gwerthuso effeithiolrwydd triniaeth.***

Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu da rhwng staff y ward a gweithwyr proffesiynol eraill wrth atgyfeirio achosion i nyrsys seiciatrig cymunedol, therapyddion galwedigaethol a'r ffisiotherapydd cymunedol. Roedd y therapydd galwedigaethol yn bresennol ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad a rhoddodd ganmoliaeth fawr i reolwr y ward ac i'r safonau gofal ac awyrgylch cadarnhaol a llesol yr ysbyty. Hefyd, esboniodd rheolwr y ward bod cyfarfod tîm amlddisgyblaethol yn digwydd yn wythnosol er mwyn trafod pob claf sydd ar hyn o bryd ar y ward, ac i gynllunio eu gofal parhaus. Gofynnem yn benodol a oedd y meddygon teulu'n mynychu am eu bod nhw'n gyfrifol am y gofal cyffredinol, ond mynegodd y staff nad oeddent yn ymwneud yn llawn â'r broses ac mai'n achlysurol y byddent yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

Clywsom aelodau staff yn siarad â chleifion yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â'u dewis, a oedd wedi'i gofnodi yn y nodiadau unigol. Rhoddai hyn synnwyr o berthyn ac roedd yn arwydd o barch tuag at eu hanghenion cyfathrebu unigol.

Dim ond un aelod o staff a wisgodd fathodyn enw i helpu pobl i'w adnabod ac i wybod beth oedd ei gyfrifoldebau o fewn y ward, yn unol â gofynion Cod Gwisg Cymru.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r holl staff wisgo bathodynau enw i wneud i gleifion deimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn ddiogel yn amgylchedd y ward.***

---

<sup>3</sup>Ymyriadau a dulliau yw bwndeli a gytunir ar draws Cymru neu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer meysydd gofal iechyd penodol. Mae'r rhain yn sicrhau bod arferion nyrsio yn gyson ac ar sail tystiolaeth.

## **Parchu pobl**

*Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, a rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.*

**Roedd y cleifion a gytunodd i siarad â ni yn llawn canmoliaeth i'r ffordd barchus y mae aelodau staff yn darparu gofal a chymorth iddynt yn feunyddiol; ac roedd rhai cleifion wedi bod ar y ward ers nifer o wythnosau.**

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn amyneddgar, yn drugarog ac yn dangos parch, yn enwedig ar adegau pan roeddent angen help i ymolchi a gwisgo a defnyddio'r toiled. Roedd arsylwadau o sut roedd y tîm yn gweithio gyda'i gilydd ar wahanol adegau yn ystod yr arolygiad yn dangos yr ymdrechion a wneir i weithio mor effeithlon â phosibl er mwyn diwallu anghenion cleifion. Gwelsom hefyd fod aelodau staff ar y cyfan yn defnyddio llenni i sicrhau preifatrwydd pob claf, gan ddefnyddio arwyddion priodol i rybuddio eraill bod cymorth personol yn cael ei ddarparu.

Nid oedd clychau galw'r nyrsys ar gael ym mhob ardal a gwelsom un claf yn eistedd yn yr ystafell ddydd yn gweiddi am gymorth i fynd yn ôl i'w wely. Wrth drafod â'r staff mynegwyd eu bod nhw wedi mynd ato i siarad ag ef a'i fod wedi newid ei feddwl pan gynigion nhw i'w helpu nôl i'w wely.

## **Hybu annibyniaeth**

*Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.*

**Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a thrafodaethau gyda'r unigolion dan sylw y gall yr aelodau staff roi digon o'u hamser i gymryd rhan ymarferol yn eu gofal.**

Canfuom fod tîm y ward wedi gwneud atgyfeiriadau priodol at aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol megis ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Fe'u defnyddiwyd i annog a hyrwyddo annibyniaeth y claf cymaint â phosibl.

Gwelsom hefyd fod y staff yn sicrhau bod y gloch i alw'r nyrsys, diodydd ac eitemau personol eraill o fewn cyrraedd rhwydd ar erchwyn eu gwely, er mwyn galluogi cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Hefyd, roedd rhai cleifion yn defnyddio cymhorthion cerdded i'w cynorthwyo i symud o gwmpas y ward yn rhydd ac yn ddiogel.

## **Perthnasau**

*Rhaid annog pobl i gadw eu cysylltiadau â'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.*

**Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gynnal eu perthynas â'u teuluoedd a'u ffrindiau.**

Ceir ystafell ddydd ar y ward lle gall cleifion a pherthnasau eistedd i ffwrdd o erchwyn y gwely. Fe'n hysbyswyd hefyd fod sgysiaiu preifat a chyfrinachol yn digwydd yn ystafell y nyrs neu yn swyddfa Rheolwr y Ward. Gwnaethom siarad â rhai cleifion i weld oeddent yn defnyddio'r ystafell ddydd a dywedwyd wrthym eu bod weithiau'n cyfarfod â pherthnasau yno, ond nad oedd hynny'n arferol.

## ***Argymhelliad***

***Dylid annog cleifion i ddefnyddio'r ystafell ddydd i hyrwyddo adsefydlu a gweithgaredd cymdeithasol.***

## **Gorffwys, cysgu a gweithgareddau**

*Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.*

**Datgelodd sgysiaiu gyda chleifion eu bod yn cael cyfleoedd i orffwys yn ystod y dydd. Fe'n hysbyswyd ganddynt hefyd bod yr aelodau staff yn rhoi blancedi ychwanegol iddynt os oedd eu hangen.**

Canfuwyd gennym fod gan y cleifion ddigon o obenyddion i'w gwneud yn gyfforddus a bod lefelau sŵn ar y ward yn isel. Ni ddywedodd y cleifion a siaradodd â ni bod eu cwsg yn cael ei darfu yn ystod y nos. Dywedon nhw hefyd eu bod yn gallu gorffwys yn ystod y dydd.

## **Sicrhau cysur, lliniaru poen**

*Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac mor ddi-boen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.*

**Dynododd sgysiaiu gyda nifer o gleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn rhydd o boen.**

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod tîm y ward wedi cofnodi rhywfaint o wybodaeth gychwynol am gleifion a oedd yn derbyn lladdwyr poen. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth bod lefel poen cleifion wedi ei hasesu

cyn, neu ar ôl, rhoi meddyginiaeth lleddfu poen iddynt ar bresgripsiwn. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig felly i gadarnhau bod meddyginiaeth o'r fath wedi bod yn effeithiol, neu fod ei hangen o hyd. Dynododd sgwrs gyda chlaf bod lefel ei boen wedi gwella drwy ddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn.

### **Hylendid personol, ymddangosiad a gofal traed**

*Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.*

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn derbyn cymorth gyda'u hylendid personol a'u hymddangosiad yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.**

Dangosodd arsylwadau a sgysiau gyda chleifion eu bod yn cael cymorth yn ôl yr angen o ran hylendid personol a gofal traed. Gwelsom hefyd fod cleifion yn cael eu hannog i wisgo eu dillad eu hunain yn ystod y dydd yn hytrach na gwisg nos, yn unol â'u dymuniadau.

Roedd golwg raenus ar bobl a gwelsom berson trin gwallt yn ymweld â'r ward i olchi a gosod gwallt claf. Hefyd, gwelwyd bod stoc dillad y ward yn cynnwys gynau urddas. Gofynnem pam nad oedd un claf wedi eillio a dywedodd y staff mai dyna'i ddewis. Cadarnhaodd y claf hwn wrthym nad oedd yn dymuno eillio.

### **Bwyta ac yfed**

*Rhaid i bobl gael cynnig dewis o fwyd a diod sy'n bodloni eu gofynion maethol a phersonol a'u bod yn derbyn unrhyw gymorth y mae arnynt ei angen i fwyta ac yfed.*

**Caiff anghenion maeth cleifion a'u gallu corfforol i fwyta ac yfed eu hasesu'n rheolaidd. Rhoddir cyngor a chefnogaeth iddynt yn ôl yr angen.**

Ceir arwyddion “amser pryd bwyd wedi’i ddiogelu”<sup>4</sup>, a chydymffurfiwyd â hyn. Ni welsom amser bwyd yn cael darfu.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau maeth yn nodiadau'r cleifion a, lle bo angen, roedd siartiau cofnodi bwyd ar waith i gofnodi faint o faeth a fwyteir. Roedd y rhain wedi eu cwblhau’n briodol. Fodd bynnag nid oedd hambyrddau coch ar waith er mwyn adnabod y cleifion a fyddai angen cymorth wrth fwyta, o bosibl. Nodwyd drwy sgrysiâu ag aelodau staff fod hambyrddau coch a phlatiau a chwpanau glas ar gael ond na ddefnyddid nhw. Dywedon nhw fod cyn lleied o bobl ar y ward fel eu bod nhw'n gwybod eu hanghenion heb ddefnyddio hambyrddau.

Roedd cofnodion ar gael o bwysau cleifion pan gawsant eu derbyn ac yn wythnosol wedi hynny. Pe bai pryderon am yr agwedd hon ar eu gofal, dywedodd staff y byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud at y Tim Iaith a Lleferydd neu ddietydd. Nid oedd tystiolaeth fod angen y fath atgyfeiriadau yn y nodiadau yr edrychom arnynt.

Dywedodd nifer o gleifion a siaradodd â ni fod y bwyd yn dda. Rhoddwyd pryd arall o’u dewis i’r rhai nad oedd yn hoffi’r pryd a oedd yn cael ei weini.

Yn ystod amser cinio ni welsom gleifion yn cael cynnig llyeiniau gwlyb neu bowlenni golchi cyn iddynt fwyta eu prydau.

### ***Argymhelliad***

***Mae angen i staff sicrhau bod cleifion yn cael cynnig cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta'u prydau yn unol â'u dymuniadau ac er mwyn cydymffurfio â'r Hanfodion Gofal.***

Siaradom â chlaf a oedd yn bwyta cinio yn yr ystafell ddydd i weld a weinir bwyd yno drwy'r amser. Dywedwyd wrthym nad oedd yn arferol ac mai bwyta wrth y gwely oedd yr arfer.

---

<sup>4</sup>Amseroedd Prydau Bwyd wedi’u Diogelu’. Dyma gyfnod yn ystod prydau cinio a phryd nos, pan ddylai pob gweithgaredd ar ward ysbyty gael eu hatal. Rhoddir y trefniant hwn ar waith er mwyn i nyrsys a staff cadw tŷ allu helpu i weini’r bwyd a rhoi cymorth i gleifion pan fo ei angen arnynt. Mae prydau bwyd wedi’u neilltuo hefyd yn rhwystro unrhyw darfu diangen ar brydau bwyd y cleifion.



## ***Argymhelliad***

***Byddai'n fuddiol o safbwynt adsefydlu cleifion a'r ochr gymdeithasol pe bai cleifion yn cael eu hannog i gael pryddau yn yr ystafell ddydd.***

Gwnaethom arsylwi ar ddau aelod o staff yn cynorthwyo pobl i fwyta, ond ni wnaed hynny gydag urddas a pharch. Nid oedd cyswllt llygad, sgwrs na digrifwch i wneud amser pryd bwyd yn brofiad pleserus.

## ***Argymhelliad***

***Mae angen i staff sicrhau bod cleifion yn cael cymorth a chefnogaeth i fwyta gydag urddas a pharch.***

Gwnaethom arsylwi, a gwnaeth y cleifion gadarnhau, bod jygiau dŵr yn cael eu newid tair gwaith y dydd a bod diodydd poeth ar gael drwy'r dydd a'r nos.

Roedd cegin fach ond ymarferol ar y ward lle gallai staff wneud byrbrydau i'r cleifion pan oedd y brif cegin ar gau.

## **lechyd a hylendid y geg**

*Rhaid cefnogi pobl i gynnal cegau iach a chyfforddus, a dannedd a deintgig sy'n rhydd o boen, er mwyn eu galluogi i fwyta'n dda a rhwystro problemau cysylltiedig.*

**Anogir a chynorthwyir y cleifion i ofalu am eu cegau; a darperir gofal a chymorth priodol yn ôl y gofyn.**

Drwy sgysiau gyda chleifion gwnaethom gadarnhau eu bod yn cael eu hannog a'u helpu i ofalu am eu cegau ac i lanhau eu dannedd yn rheolaidd. Hefyd, amlygodd cyfweiliadau gyda nyrsys cofrestredig eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd gofal y geg rheolaidd.

Ar yr achlysur hwn nid oedd AGIC yn teimlo ei fod yn angenrheidiol edrych yn fanwl ar y maes hwn am ein bod yn fodlon bod cleifion yn gallu cynnal hylendid y geg yn dda, neu'n cael cymorth i wneud hynny, yn seiliedig ar ein harsylwadau o'r arfer.

## **Anghenion toiled**

*Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon yn ôl yr angen, gan gymryd unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd i ystyriaeth.*

**Nid oedd clychau galw'r nyrsys bob amser o fewn cyrraedd hawdd i'r cleifion, i'w galluogi i ofyn am gymorth i fynd i'r toiled ac yn ôl.**

Nododd sgysiau gyda chleifion bod aelodau staff ar y cyfan yn ymateb yn brydlon ac yn ystyriol i'w ceisiadau'n ymwneud ag anghenion toiled. Ar yr adegau hynny pan oedd oedi byr wrth ymateb dywedon nhw wrthym y byddai staff yn esbonio'r rhesymau pam.

Nid oedd cyfleusterau toiled a oedd yn benodol i ddynion neu ferched. Canfuwyd fod pob un yn lân yn ac yn cynnwys papur toiled, peiriant sebon a pheiriant tywelion papur. Fodd bynnag nid oedd gan un toiled system galw nyrsys, dim ond cloch llaw, a oedd yn anaddas. Roedd gan doiled arall system galw nyrsys a oedd y tu hwnt i gyrraedd cleifion a oedd yn defnyddio'r toiled. Canfuwyd bod y trefniadau hyn yn anniogel ar gyfer cleifion eiddil a oedd angen cymorth i fynd yn ôl a blaen i'r toiled.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i glychau galw'r nyrsys fod ar gael ym mhob man lle byddai cleifion angen cymorth.***

Gwelsom fod cadeiriau comôd yn cael eu cadw yn y toiledau. Byddai angen symud y fath gyfarpar er mwyn i gleifion allu mynd at y toiled. Dywedodd un claf wrthym fod y sefyllfa hon yn rhwystr rhag defnyddio'r toiled yn annibynnol. Gwelsom hefyd fod dau bâr o welingtons wedi'u cadw mewn un toiled/ystafell ymolchi.

### ***Argymhelliad***

***Ni ddylid defnyddio ystafelloedd toiled/cawod ar gyfer storio pethau.***

Gwelsom hefyd fod rhai comodau yn cael eu cadw yn yr ystafell amlbwrpas frwnt, wrth y mwydwr, ac er eu bod yn lân nid oedd sticer arnynt i gadarnhau eu bod wedi'u golchi.

### ***Argymhelliad***

***Mae angen i gomodau glân gael arwyddion priodol a chael eu cadw i ffwrdd o'r mwydwr, i gyfyngu ar draws-heintio.***

### **Atal Briwiau Pwyso**

*Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.*

**Helpwyd y cleifion i ofalu am eu croen a gwnaeth tîm y ward ymdrechion i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.**

Dangoswyd o graffu ar sampl o gofnodion cleifion bod cyflwr eu croen yn cael ei asesu a'i fonitro'n rheolaidd trwy gydol eu hamser ar y ward. Gwneir hyn trwy ddefnyddio dogfennau bwndel SKIN<sup>5</sup> sy'n atgoffa aelodau staff i annog cleifion i newid eu safle yn y gwely neu'r gadair. Pan nad oedd cleifion yn gallu gwneud hyn yn annibynnol, fe'u cynorthwywyd i symud i safle gwahanol gan ddefnyddio cymhorthion codi a chario.

Gwelwyd bod cadeiriau priodol ac offer codi a chario cleifion ar gael yn ardaloedd y ward, ynghyd â matresi lleddfu pwysau.

---

<sup>5</sup>Os ystyrir bod claf mewn perygl o ddatblygu wiser pwysu, mae bwndel SKIN yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys gofnodi eu bod wedi archwilio ei groen bob dwy awr o leiaf, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o niwed.

## ***Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda yn ôl pob golwg. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref a gwaith tîm da. Roedd y staff nyrsio yn bodloni'r safonau gofynnol ac roedd staff yn deall sut i drosglwyddo problemau i lefel uwch pe baent yn codi. Fodd bynnag, ni roddwyd hyn ar waith tra bod clerc y ward yn absennol.**

### **Lefelau staffio, cymysgedd sgiliau ac atebolrwydd proffesiynol**

Fe'n hysbyswyd bod cynllun wedi ei gynnig i gau Ysbyty Tregaron ac agor gwasanaeth newydd yn y dref. Caiff y gwasanaeth newydd ei leoli ar safle a godir i'r pwrpas, gyda chwe gwely ar gyfer arosiadau byr a fydd yn cyd-fynd â thîm nyrsio cymunedol ehangach. Fe'n hysbyswyd gan y rheolwyr uwch a'r staff bod rheolwr y ward yn weithgar yn cyflwyno'r newid arfaethedig mewn modd diogel a gwybodus. Dywedodd y staff i gyd fod ganddynt hyder yng ngallu rheolwr y ward a rhoddon nhw enghreifftiau a disgrifiadau o welliannau a wnaed gan reolwr y ward i'r dull gweithio dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd rheolwr y ward ar ddiwrnod o absenoldeb ymchwil pan gyrhaeddom, ond parhaodd staff y ward i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon, a phob un yn deall ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau. Roedd staff hefyd yn cyflawni dyletswyddau clerc y ward a oedd yn absennol. Roedd rheolwr y ward ar ddyletswydd ar yr ail ddiwrnod ac esboniodd bod gweithiwr cymorth gofal iechyd wedi'i hyfforddi i gyflawni rôl clerc y ward lle bo angen. Fodd bynnag roedd yr aelod o staff hwnnw hefyd yn absennol o'r gwaith yn annisgwyl.

### ***Argymhelliad***

***Dylid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod clerc ward wrth gefn ar gael pan fo angen.***

### **Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol**

Mae'r egwyddorion arweiniol i staff nyrsio a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru yn nodi na ddylai mwy na saith claf gael eu pennu i bob nyrs gofrestredig ar ward feddygol yn ystod y dydd. Cafodd y safon hon ei bodloni ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag gwelsom wrth archwilio rota dyletswyddau'r staff dros y tri mis diwethaf bod sawl adeg wedi bod pan gafodd rheolwr y ward ei chynnwys yn niferoedd y staff ac felly nid oedd hi'n gallu cadw ei "diwrnod rheoli" neilltuedig i gyflawni gofynion ei rôl.

Roedd atebolrwydd proffesiynol clir ar waith; roedd rheolwr y ward yn rheoli ac roedd gan dîm o nyrsys cofrestredig gyfrifoldeb dros gleifion a gafodd eu pennu

idduynt. Roedd y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio o dan arweiniad y nyrs gofrestrdig.

### **Hyfforddiant a Datblygiad**

Roedd rhaglen hyfforddiant staff ar waith ac roedd pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant gofynnol y bwrdd iechyd. Ni wnaethom adolygu'r cofnodion hyfforddi yn fanwl yn ystod yr arolygiad hwn. Ond dywedwyd wrthym mewn sgwrs gyda rheolwr y practis bod rhaglen hyfforddiant yn dechrau yn y flwyddyn newydd lle bydd staff (wrth gydweithio â rheolwyr uwch) yn gallu adnabod meysydd lle bydd angen hyfforddiant arnynt wrth baratoi ar gyfer y newid arfaethedig o fod yn ysbyty i fod yn wasanaeth cymunedol. Byddai hyn yn cynnwys cysgodi nyrsys i helpu i nodi bylchau yn sgiliau unigolion. Roedd y dull hwn yn rhoi tystiolaeth inni fod rheolwr y ward yn cynllunio o flaen llaw er mwyn sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal gan ymarferwyr iechyd diogel ac effeithiol o fewn y cyfleuster newydd.

### **Delio â chwynion a phryderon**

Roedd yn amlwg bod rheolwr y ward a'r uwch nyrs yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod anghenion iechyd, diogelwch a lles cleifion yn cael eu diwallu. Dangosodd sgwrsiau ag aelodau o dîm y ward a therapyddion ymweld bod dull rheoli agored a gonest yn bodoli sy'n annog aelodau staff i fynegi unrhyw bryderon am y gofal a ddarperir. Fe'n hysbyswyd hefyd gan y staff a'r cleifion bod rheolwr y ward i'w gweld o gwmpas bob amser, ac yn hawdd mynd ati.

Gwelsom bosteri ar sut i wneud cwyn ar wal yn y ward. Fodd bynnag, nid oedd taflenni y gall y cleifion fynd ymaith â nhw i'w darllen adref ar ôl cael eu rhyddhau. Trafodwyd hyn gyda rheolwr y ward ar y diwrnod a chytunodd i fynd i'r afael â'r mater gydag adran gwynion y bwrdd iechyd. Cadarnhaodd arsylwadau cyffredinol yn ystod yr arolygiad hwn yr ymdrechion a wneir gan y tîm staff cyfan i gefnogi cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a thrugarog.

## **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol**

*Rhaid hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.*

**Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon â'r sylw a oedd yn cael ei roi i faterion sy'n gysylltiedig â darparu gofal iechyd diogel ac effeithiol.**

### **Rheoli risgiau**

Dangosodd trafodaethau gyda'r aelodau staff eu bod yn ymwybodol o bryd a sut i hysbysu am ddigwyddiadau clinigol drwy System Datix.<sup>6</sup> Cadarnhaodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod manylion digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi yn ôl y gofyn, ar ôl cymryd camau prydlon i sicrhau diogelwch parhaus cleifion. Canfuwyd gennym hefyd bod digwyddiadau clinigol wedi cael eu hymchwilio'n amserol.

### **Polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol**

Roedd yr aelodau staff a siaradodd â ni yn gallu cadarnhau eu bod yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau clinigol perthnasol i'w cefnogi i ddarparu gofal diogel i gleifion. Roeddent hefyd yn gallu disgrifio sut y byddent yn cael mynediad at ddogfennau perthnasol fel ffordd o sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau i gleifion yn unol â'r canllawiau presennol.

Fodd bynnag, ar ôl archwilio cofnodion dau glaf, canfuom eu bod wedi eu derbyn i'r ward gydag awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS<sup>7</sup>) ar waith, ond ni chafodd yr awdurdodiadau eu hadolygu i weld a oeddent yn dal yn gymwys, neu angen eu diweddarau neu ganslo. Dynododd ein trafodaethau â'r staff fod penbleth ynghylch proses DoLS.

---

<sup>6</sup>Dull a ddefnyddir yn y GIG i gofnodi, ymchwilio a dadansoddi'r hyn a achosodd digwyddiadau andwyol, a damweiniau a fu bron â digwydd, yw meddalwedd DATIX.

<sup>7</sup>DoLS. Pan na fydd gan berson alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am y gofal neu'r driniaeth y mae arno ei hangen, rhaid dilyn deddfwriaeth o'r enw Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid er mwyn sicrhau nad yw pobl yn colli eu rhyddid yn anghyfreithlon.

## ***Argymhelliad***

***Mae angen i aelodau staff fod yn ymwybodol o broses DoLS a'i goblygiadau i ofal y claf.***

### **Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol**

Wrth drafod â nyrsys cofrestredig a chraffu ar bum cofnod cleifion cadarnhawyd bod y ward yn defnyddio dangosyddion ansawdd megis bwndeli SKIN Cymru<sup>8</sup> i fonitro croen cleifion/mannau pwysu. Canfuwyd gennym hefyd bod yr un dull yn cael ei ddefnyddio o ran monitro codymau cleifion, eu hanghenion maeth a'u gofal ymataliaeth. Roedd y canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion menter 1000 o fywydau<sup>9</sup>.

Roedd tîm y ward yn gallu darparu tystiolaeth inni o'u harchwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd yr archwiliadau'n dangos lefel dda o gydymffurfiaeth â'r canllawiau atal a rheoli heintiau cyfredol.

### **Diogelwch Cleifion**

Wrth graffu ar un set o nodiadau meddygol gwelwyd nad oedd llofnod na dyddiad gan y meddyg derbyn pan gafodd y claf ei dderbyn i ysbyty Bronglais. Nid oedd y pro fforma/ dogfennaeth derbyn claf meddygol wedi eu llofnodi a'u dyddio chwaith. Nodwyd gennym fod y meddyg dan hyfforddiant wedi llofnodi a

---

<sup>8</sup>Mae **bwndeli SKIN** yn gofyn am ymyriad nyrsio wedi ei gofnodi bob dwy awr o leiaf yn y meysydd canlynol, i leihau'r tebygolrwydd o niwed. Arwyneb, er mwyn sicrhau bod y claf ar y fatres gywir; gobennydd - nad oes unrhyw grychau neu blygiadau. Parhau i symud – annog cleifion i symud eu hunain, adleoli'r claf ac archwilio'r croen. Anymataliaeth– diwallu angen y claf o ran mynd i'r toiled neu ymataliaeth. Maetheg – yfed digon, diwallu anghenion maeth y claf.

<sup>9</sup>Rhedodd yr Ymgyrch 1000 o Fywydau o fis Ebrill 2008 i fis Ebrill 2010. Ei nod oedd arbed 1000 o fywydau ac atal 50,000 o achosion o niwed yng ngofal iechyd Cymru. Olynwyd yr Ymgyrch gan raglen genedlaethol o'r enw 1000 o Fywydau a Mwy yn mis Mai 2010, a geisiodd gynnal cynnydd yr Ymgyrch a chyflwyno meysydd gwaith newydd.

<http://www.1000ofywydauamwy.wales.nhs.uk/hafan>

dyddio'r dogfennau. Mewn nodiadau meddygol eraill gwelsom hefyd fod meddyg (o ysbyty Bronglais) heb ysgrifennu ei asesiad, y diagnosis a'r cynllun gofal cyn i'r claf gael ei ryddhau o ysbyty Tregaron.

Meddygon Teulu Lleol oedd yn gyfrifol am dderbyn cleifion i ysbyty Tregaron a chanfuom mai ychydig iawn a ysgrifennwyd yn y nodiadau meddygol am y broses o wneud penderfyniad meddygol neu gynllunio i ryddhau. Dywedodd staff eu bod nhw weithiau'n gorfod gofyn yn benodol am i wybodaeth gael ei hysgrifennu yn nodiadau cleifion.

### ***Argymhelliad***

***Mae angen i'r Uwch Staff Meddygol sicrhau bod Meddygon yn cydymffurfio â'r canllawiau Arfer Meddygol Da ar ddyletswyddau doctor sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, a chymryd camau gweithredu priodol os na wneir hyn.***

### **Rheoli Meddyginiaeth**

Canfuom fod rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth oherwydd dynodwyd mewn sgysiau â staff bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut i gofnodi os nad oedd meddyginiaeth wedi'i rhoi, neu pan fo dos wedi'i fethu. Wrth archwilio siart gweinyddu cyffuriau gwelsom nodyn gludog melyn gyda neges ynghylch dos a fethwyd.

Gwnaethom arsylwi ar rownd feddyginiaeth yn cael ei chynnal a sylwom nad oedd bandiau adnabod pobl yn cael eu gwirio fel arfer. Pan dynnodd yr arolygydd sylw'r nyrs gofrestredig at y mater dywedwyd wrthym mai grŵp bychan sefydlog oedd ar y ward, ac er bod gwirio bandiau adnabod yn weithdrefn gywir, roedd y staff yn eu hadnabod nhw i gyd yn dda. Ar gyfer cleifion sydd â lefelau gwahanol o ddryswch gwybyddol y weithdrefn gywir yw bod dau aelod o staff yn gwirio'r bandiau adnabod. Ni welsom hyn yn digwydd yn ystod y rownd feddyginiaeth.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r holl staff cymwysedig fod yn gymwys o ran rhoi meddyginiaeth.***

Cedwid cyffuriau mewn awyrgylch diogel ac roedd gwiriadau o'r llyfr cofnodi cyffuriau a reolir yn gywir.

Gwelsom hefyd fod llythyr cyfarwyddyd wedi'i anfon gan y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi bod angen i'r holl gyffuriau a reolir gael eu llofnodi gan ddau aelod o staff cymwysedig. Fodd bynnag, yn ystod y shifft nos dim ond un nyrs gymwysedig oedd ar ddyletswydd. Wrth archwilio'r mater ymhellach gyda'r



staff eglurwyd y byddai gweithiwr cymorth gofal iechyd cymwys yn cadarnhau ac yn arsylwi'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi, ond na fyddai'n llofnodi'r llyfr cyffuriau a reolir. Byddai nyrsys cymwysedig hefyd yn ceisio rhoi unrhyw gyffuriau ar bresgripsiwn a reolir, yn ystod y cyfnod trosglwyddo pan fyddai dau aelod o staff cymwys ar ddyletswydd.

Gofynnem pa mor aml roedd fferylllydd yn ymweld â'r ward i wirio lefelau stoc a siartiau gweinyddu a daeth i'r amlwg bod ymweliadau'n anfyfych – tua dwywaith y flwyddyn. Arweiniodd hyn inni holi sut y ceid cyffuriau y "tu allan i oriau". Nid oedd y system hon yn ddigon cadarn ac roedd trefniant yn ôl y galw/anffurfiol ar waith gyda'r fferyllfa leol, neu byddai aelod o dîm y fferyllfa yn Ysbyty Bronglais yn trefnu i gyflenwi'r cyffuriau.

### ***Argymhelliad***

***Mae angen i'r gwasanaeth cyflenwi cyffuriau y tu allan i oriau, a chefnogaeth wrth gefn y fferyllfa, gael eu ffurfioli drwy osod polisiau a gweithdrefnau cadarn ar waith.***

Ni châi ocsigen ei ragnodi'n briodol ar y siartiau gweinyddu meddyginiaethau a dywedodd y nyrsys y byddent yn atgoffa'r meddygon lle bo'n bosibl. Ni châi sylindrau ocsigen eu cadw'n unol â gofynion iechyd a diogelwch am eu bod nhw'n cael eu cadw yn y coridor heb arwyddion i rybuddio am y perygl posibl i staff. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu y dylid clymu sylindrau gyda chadwyn, neu eu clampio, i'w hatal rhag syrthio drosodd. Pan na chânt eu defnyddio awgryma'r Awdurdod y dylid eu cadw mewn storfa ac iddi ddigon o aer, i ffwrdd oddi wrth ddeunydd llosgadwy ac wedi eu gwahanu oddi wrth sylindrau o nwy llosgadwy.

### ***Argymhelliad***

***Dylid rhagnodi ocsigen a chadw sylindrau'n briodol.***

Dywedodd y staff nad oes cleifion yno sy'n gallu rhoi meddyginiaeth i'w hunain ar hyn o bryd, a dynodwyd mewn sgysiau pellach nad oes polisi hunan-feddyginiaeth gan y ward.

### ***Argymhelliad***

***Dylai fod polisi hunan-feddyginiaeth gan y ward ar gyfer cleifion sy'n dymuno cymryd eu meddyginiaeth yn annibynnol.***

### **Gofal Diabetig**

Fe'n hysbyswyd gan y staff bod nyrs gyswllt diabetes ar y ward, ond roedd disgwyl i'r nyrs honno ymddeol yn y dyfodol agos ac roedd nyrs gyswllt arall eisoes wedi'i henwebu i barhau gydag elfen yna'r gwaith.

Roedd staff o bob gradd yn gwybod lle i gael gafael ar y blwch argyfwng diabetes a gedwid ger y troli dadebru. Nodwyd drwy sgysiau gydag aelodau staff eu bod yn ymwybodol o'r driniaeth gywir ar gyfer hypoglycaemia.<sup>10</sup> Ond wrth graffu ar nodiadau un claf gwelsom fod meddyginiaeth wedi'i hepgor oherwydd dynodwyd wrth fonitro'r gwaed bod lefelau isel o siwgr yn y gwaed. Ni chafwyd cyfeiriad at hypoglycaemia yn y ddogfennaeth, dim ond yn y cofnod rhoi meddyginiaeth, ac ni wnaed camau i gywiro hynny yn ôl pob golwg. Dywedodd y nyrs gofrestredig eu bod nhw wedi ceisio am gyngor (dros y ffôn gan y Nyrs Diabetes Arbenigol) ond na chofnodwyd hynny. Arweiniodd hyn at ddrwsch o ran gofal y claf hwn. Ni chafwyd effaith tymor hir ar y claf a galwyd ar y meddyg teulu i adolygu ei feddyginiaeth.

Nid oedd yr aelodau staff yn sicr ynghylch proses DAFNE<sup>11</sup> /DAFYDD<sup>12</sup> ond dywedon nhw y byddent yn cysylltu â'r Nyrs Glinigol Arbenigol pe bai angen cymorth arnynt. Nid yw hyn yn benodol i'r ward hon ac mae'r bwrdd iechyd eisoes wedi nodi bod hwn yn faes y gellid gwella. Canfuom fod gofal diabetig yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol ac nad oedd ganddo broffil uchel ar y ward. Hynny yw, nid oedd taflenni gwybodaeth, na chwaith dystiolaeth o ymgyrch "Think Glucose"<sup>13</sup>.

Cynigiwyd diweddariadau hyfforddiant a mynychodd rhai o'r staff, ac er na welsom reolaeth weithgar o diabetes gwnaethom ganfod bod cleifion yn cael eu

---

<sup>10</sup>Argyfwng meddygol yw hypoglycaemia sy'n ymwneud â lefel anarferol o isel o glwcos yn y gwaed.

<sup>11</sup> Ffordd o reoli diabetes Math 1 yw DAFNE (Dose Adjustment For Normal Eating) ac mae'n darparu'r sgiliau angenrheidiol i bobl amcangyfrif faint o garbohydrad sydd ym mhob pryd ac i chwistrellu'r dos cywir o inswlin.

<sup>12</sup>Rhaglen addysg i bobl â diabetes Math 1 yw DAFYDD (Dose Adjustment For Your Daily Diet).

<sup>13</sup>Menter genedlaethol a arweinir gan Sefydliad Arloesi a Gwella'r GIG yw 'Think Glucose'. Ei nod yw gwella'r gofal diabetes i gleifion preswyl gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o'r tîm diabetes arbenigol ar gyfer cleifion preswyl.

hannog a'u grymuso i reoli eu diabetes eu hunain drwy ddeiet a meddyginiaeth, lle'r oedd hynny'n bosibl iddynt.

## 6. Camau nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y byddir yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Cymunedol Tregaron, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y bwrdd iechyd.

Pan gytunir ar Gynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a chaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus o urddas a gofal hanfodol.

## 7. Atodiad A

**Urddas a Gofal Hanfodol:** Cynllun Gwella

**Ysbyty:** Ysbyty Tregaron

**Dyddiad yr Arolygiad:** 23 a 24 Hydref 2014

| Rhif y Dudalen                | Argymhelliad   | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|-------------------------------|--|-------------------------------|------------------|----------|
| <b>Ansawdd Profiad y Claf</b> |  |                               |                  |          |
| Tud 6                         | Rhaid cynnwys y cleifion yn y broses o gynllunio eu gofal a'u triniaeth. Rhaid i staff wrando ar gleifion a'u perthnasau ynghylch holl agweddau eu gofal a sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu parchu. |                               |                  |          |
| Tud 7                         | Rhaid cynnwys cleifion wrth gynllunio eu gofal a'u triniaeth. Lle bo angen rhaid esbonio cyflyrau meddygol a rhoi cefnogaeth i gleifion ddeall eu triniaeth.   |                               |                  |          |
| Tud 8                         | Am nad oes gan y ward gyfleusterau radio ar erchwyn y gwely dylid annog y cleifion hynny sy'n dymuno gwneud i ddod â'u radio eu  |                               |                  |          |

| Rhif y Dudalen                  | Argymhelliad  | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---------------------------------|---|-------------------------------|------------------|----------|
|                                 | hunain gyda chlustffonau personol.  |                               |                  |          |
| <b>Cyflenwi Hanfodion Gofal</b> |   |                               |                  |          |
| Tud 10                          | Mae angen archwilio nodiadau nyrsio i sicrhau y cwblheir yr holl ddogfennau'n briodol. Mae angen i ddogfennaeth nodi anghenion nyrsio unigol yn eglur, amlinellu ymyriadau a gwerthuso effeithiolrwydd triniaeth. |                               |                  |          |
| Tud 10                          | Rhaid i'r holl staff wisgo bathodynau enw i wneud i gleifion deimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn ddiogel yn amgylchedd y ward.   |                               |                  |          |
| Tud 12                          | Dylid annog cleifion i ddefnyddio'r ystafell ddydd i hyrwyddo adsefydlu a gweithgaredd cymdeithasol.  |                               |                  |          |
| Tud 14                          | Mae angen i staff sicrhau bod cleifion yn cael cynnig cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta'u prydau yn unol â'u dymuniadau ac er mwyn cydymffurfio â'r Hanfodion Gofal.   |                               |                  |          |
| Tud 15                          | Byddai'n fuddiol o safbwynt adsefydlu cleifion a'r ochr gymdeithasol pe bai cleifion yn cael eu hannog i gael prydau yn yr ystafell ddydd.  |                               |                  |          |

| Rhif y Dudalen                                      | Argymhelliad   | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|--|-------------------------------|------------------|----------|
| Tud 15  | Mae angen i staff sicrhau bod cleifion yn cael cymorth a chefnogaeth i fwyta gydag urddas a pharch.  |                               |                  |          |
| Tud 16  | Rhaid i glychau galw'r nyrsys fod ar gael ym mhob man lle byddai cleifion angen cymorth.   |                               |                  |          |
| Tud 16  | Ni ddylid defnyddio ystafelloedd toiled/cawod ar gyfer storio pethau.  |                               |                  |          |
| Tud 16  | Mae angen i gomodau glân gael arwyddion priodol a chael eu cadw i ffwrdd o'r mwydwr, i gyfyngu ar draws-heintio.   |                               |                  |          |
| <b>Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b> |  |                               |                  |          |
| Tud 18  | Dylid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod clerics ward wrth gefn ar gael pan fo angen.  |                               |                  |          |
| <b>Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol</b>     |  |                               |                  |          |
| Tud 21  | Mae angen i aelodau staff fod yn ymwybodol o broses DoLS a'i goblygiadau i ofal y claf.  |                               |                  |          |
| Tud 22  | Mae angen i'r Uwch Staff Meddygol sicrhau bod Meddygon yn cydymffurfio â'r canllawiau Arfer Meddygol Da ar ddyletswyddau doctor sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, a chymryd camau |                               |                  |          |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad   | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|-------------------------------|------------------|----------|
|                | gweithredu priodol os na wneir hyn.  |                               |                  |          |
| Tud 22         | Rhaid i'r holl staff cymwysedig fod yn gymwys o ran rhoi meddyginiaeth.  |                               |                  |          |
| Tud 23         | Mae angen i'r gwasanaeth cyflenwi cyffuriau y tu allan i oriau, a chefnogaeth wrth gefn y fferyllfa, gael eu ffurfioli drwy osod polisiau a gweithdrefnau cadarn ar waith. |                               |                  |          |
| Tud 23         | Dylai fod polisi hunan-feddyginiaeth gan y ward ar gyfer cleifion sy'n dymuno cymryd eu meddyginiaeth yn annibynnol.   |                               |                  |          |

## Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):.....

Teitl: .....

Llofnod:.....

Dyddiad: .....



